# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Mawrth 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiant

## 2 Ymchwiliad i ddatganoli darlledu

(09:30-10:15) (Tudalennau 1 - 13)

Huw Jones, Cyn-gadeirydd Bwrdd ac Awdurdod S4C

Martin Mumford, Nation Broadcasting

## 3 Ymchwiliad i ddatganoli darlledu

(10:15-10:45)

Justin Lewis, Prifysgol Caerdydd

## 4 Ymchwiliad i ddatganoli darlledu

(10:45-11.30)

Heledd Gwyndaf, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Aled Powell, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch astudiaeth ddichonoldeb gwasanaethau cerddoriaeth

(Tudalennau 14 - 19)

6 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

7 **Ôl-drafodaeth breifat**

(11.30-11.45)

8 **Ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw: cytuno ar yr adroddiad**

(11.45-12.00) (Tudalennau 20 - 101)

9 **Ymchwiliad i'r defnydd o’r Gymraeg yn y byd digidol: cytuno ar gylch gorchwyl**

(12.00-12.15) (Tudalennau 102 - 107)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

30 Ionawr 2020

Annwyl Kirsty,

**Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 16 Ionawr i drafod yr Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth.

**Mynediad cyfartal at ragoriaeth**

Fel y trafodwyd yn y cyfarfod, gall yr anghysondeb presennol yn y ddarpariaeth ar draws ysgolion yng Nghymru arwain at anghydraddoldeb o ran mynediad. Gwnaethoch sôn eich bod yn ceisio lleihau hyn drwy ddefnyddio cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion.  A allwch chi roi enghreifftiau o sut mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i roi'r un gallu i blant o aelwydydd incwm isel ddysgu chwarae offeryn â rhai o deuluoedd mwy cefnog?

Wrth drafod y penderfyniad i beidio â chymeradwyo model cenedlaethol newydd o ddarpariaeth gwasanaethau cerdd, gwnaethoch sôn am eich cefnogaeth i sybsidiaredd a'r angen i ganiatáu i gymunedau lleol ddod o hyd i atebion sy'n addas iddynt, yn hytrach na gorfodi model cenedlaethol.  A allwch chi nodi sut y byddwch yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael yr un cyfle i gael budd o hyfforddiant cerdd, waeth ble maent yn byw?

Gwnaethoch chi hefyd sôn bod eich adran yn edrych ar y perfformiad anghyson ymysg Awdurdodau Addysg Lleol o ran darparu gwasanaethau cerdd a sut mae arfer gorau yn cael ei annog. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am rôl hyrwyddo eich adran yn hyn o beth.

## Rhagor o wybodaeth

Yn ystod y cyfarfod gwnaethoch gytuno i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y cyllid a'r cymorth a ddarperir ar gyfer addysg gerddoriaeth mewn ysgolion gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon manylion y cymorth ataf.

Yn ystod y drafodaeth ar y ffyrdd y mae'r sector addysg breifat yn rhannu eu cyfleusterau ag ysgolion a grwpiau cymunedol eraill, gwnaethoch gytuno i ddarparu gwybodaeth am faint o ysgolion sy'n codi ffioedd sy'n rhannu eu cyfleusterau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni am yr ysgolion sy'n gwneud hyn, p'un a ydynt yn codi tâl am ddefnyddio eu cyfleusterau a pha mor aml y maent yn sicrhau bod eu cyfleusterau ar gael.

## Y camau nesaf


Yn dilyn y cyfarfod, dywedodd yr aelodau ei bod yn ymddangos bod cynnydd ar y mater hwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Rwy'n pryderu efallai na fydd unrhyw newidiadau ar waith cyn diwedd y Cynulliad hwn.

Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor mai'r cam nesaf yn y broses hon yw i'r grŵp rhanddeiliaid drafod yr argymhellion yn yr adroddiad.

Diolch am fy ngwahodd i ddod i gyfarfod y grŵp rhanddeiliaid i fod yn rhan o'r drafodaeth hon. Ers hynny, rwyf wedi ateb i ddweud na fyddaf yno gan fy mod i'n teimlo nad yw'n briodol cyfrannu at grŵp pan fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar eu penderfyniadau a'u canlyniadau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddiweddaru'r Pwyllgor gydag aelodaeth y grŵp a chanlyniadau eu cyfarfod ar ôl 29 Ionawr.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 28 Chwefror 2020.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-KW/0609/20

Bethan Sayad AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Chwefror 2020

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Ionawr 2020. Roeddwn yn falch o gael y cyfle i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 16 Ionawr i drafod yr Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth.

Trof at y pwyntiau rydych yn eu codi yn eich llythyr.

Mynediad cyfartal at ragoriaeth

Ein nod yw sicrhau y darperir mynediad cyffredinol o ansawdd uchel at addysg gerddoriaeth i bob dysgwr, ni waeth ble maent yn byw na'u hamgylchiadau ariannol. Rydym am i bob person ifanc gael mynediad at addysg gerddoriaeth a chyfleoedd i ddatblygu eu talentau a'u sgiliau, ni waeth beth fo'u cefndir na'u gallu.

Er mwyn ateb y galw am fwy o gysondeb a chydlynu darpariaeth gerddoriaeth yn well, mae thema gref yn rhedeg drwy'r adroddiad ar ddichonoldeb, sef cyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg gerddoriaeth gyda'r nod o ddarparu fframwaith sy'n pennu safonau ansawdd, llwybrau cynnydd a darpariaeth gyfartal. Mae'r adroddiad yn nodi y gallai cynllun helpu i sicrhau mwy o gysondeb ac ysgogi gwelliannau penodol. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir bod angen i unrhyw gynllun gael ei ystyried yn llawn gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r grŵp o randdeiliaid er mwyn sicrhau y mabwysiedir y dull gorau o ddatblygu Cynllun Cenedlaethol sy'n sicrhau mynediad cyfartal.

Yn bwysig ddigon, mae'r adroddiad ar ddichonoldeb hefyd yn cysylltu cynllun cenedlaethol arfaethedig ar gyfer addysg gerddoriaeth â'r cwricwlwm newydd. Mae'n awgrymu y byddai cynllun o'r fath yn darparu fframwaith ar gyfer addysg gerddoriaeth mewn ysgolion, gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n golygu y gall meincnodi clir o ran ansawdd a darpariaeth fod yn elfen gref o Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Petai Cynllun Cenedlaethol ar

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyfer Addysg Gerddoriaeth yn cael ei roi ar waith, byddai angen iddo felly weithio ochr yn ochr â'r Cwricwlwm i Gymru a oedd ond wedi'i gyhoeddi ar 28 Ionawr.

Rwy'n cytuno ei bod yn annerbyniol i lwyddiant plant ddibynnu ar eu hamgylchiadau cymdeithasol neu economaidd. Mae'r gred na ddylai gallu rhywun i gael budd o addysg ddibynnu ar ble maent yn byw, eu cefndir nac incwm eu rhieni yn sail i bob agwedd ar ein gwaith.

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn adnodd pwerus i ysgolion gefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig i gael mynediad at y celfyddydau a'r profiadau diwylliannol na fyddent yn gallu cymryd rhan ynddynt fel arall. Yn 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddosbarthu canllawiau i ysgolion ar ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi'r celfyddydau a'r gweithgareddau diwylliannol. Roedd y canllawiau hyn yn ei gwneud yn glir y gallai ysgolion ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar sail achosion unigol er mwyn helpu dysgwyr unigol o deuluoedd incwm isel i ddilyn ffurfiau celfyddydol penodol, megis gwersi offerynnau cerdd, cyhyd â bod hynny'n cefnogi cyrhaeddiad academaidd yn fwy cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu pecyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Dysgu Cymru ac yn dangos sut y gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi ymgyfoethogi diwylliannol. Mae hefyd yn darparu strwythur a chymorth i weithwyr proffesiynol wella eu hyder wrth gynllunio ymyriadau yn ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Byddai angen i diwtora fod yn rhan o raglen a gynlluniwyd sydd wedi'i hanelu at wella cyrhaeddiad ar draws y cwricwlwm gyda chanlyniadau sydd wedi'u diffinio'n glir.

Yn ddiweddar, cyhoeddais fod cynnydd sylweddol yn y cyllid drwy ein Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Mae'r cyllid yn fwy nag £8 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i newid diwylliannau ac arferion mewn ysgolion, rydym hefyd yn darparu cyllid uniongyrchol i deuluoedd. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i gyfyngu i helpu gyda chostau gwisg ysgol; bydd hefyd yn cefnogi dyheadau gwell, ymgyfoethogi diwylliannol, llesiant a gwydnwch. P'un a yw'n gymorth i brynu gwisg ysgol neu brynu'r dillad neu'r adnoddau cywir i bobl ifanc gymryd rhan yn eu hoff chwaraeon neu weithgaredd cerddorol yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol, bydd y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn cefnogi'r cyfleoedd hynny.

Mae rhannu arferion da rhwng ein hysgolion yn rhan o'r diwygiadau ehangach rydym yn eu rhoi ar waith drwy ein hagenda gwella ysgolion. Mae consortia rhanbarthol wedi helpu i feithrin gallu ysgolion i hunanwella drwy ffyrdd mwy cydweithredol o weithio, ac felly wella canlyniadau i ddisgyblion mewn amser cymharol fyr. Drwy amrywiaeth o rwydweithiau ysgolion, wedi'u hariannu gan grantiau Llywodraeth Cymru a'u cydlynu gan gonsortia, mae arweinwyr ysgolion ac athrawon yn gallu manteisio'n fwyfwy ar ddatblygiad proffesiynol a chymorth i wella ysgolion gan eu cymheiriaid, gan helpu i greu diwylliant o gydweithio a rhannu arferion. Rwyf wedi gofyn i'r swyddogion ystyried, ar y cyd â'r rhanddeiliaid, ffyrdd eraill y gallem gefnogi'r gwaith o rannu arferion gorau a nodwyd rhwng awdurdodau lleol.

Rhagor o wybodaeth

Yn ystod y drafodaeth, soniais fy mod i'n ymwybodol o ysgolion annibynnol unigol sy'n cynnig eu cyfleusterau i eraill eu defnyddio. Er enghraifft, rwy'n ymwybodol bod Coleg Crist yn fy etholaeth yn cynnig ei gyfleusterau i sefydliadau allanol eu defnyddio. Rydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag ysgolion annibynnol yn llogi cyfleusterau,

ond nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae ysgolion annibynnol yn fusnesau preifat ac felly mae'r defnydd o'u hadeiladau yn fater iddynt hwy.

Rydych hefyd wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol am y cyllid a'r cymorth a ddarperir ar gyfer addysg gerddoriaeth mewn ysgolion gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* wedi'i hariannu a'i chyflwyno ar y cyd â Cyngor Celfyddydau Cymru, ac er nad yw'n canolbwyntio ar gerddoriaeth yn unig, mae wedi cefnogi ysgolion i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau cerddorol (drwy faes Ysgolion Creadigol Arweiniol a grantiau Cydweithio Creadigol ac Ewch i Weld) dros y cyfnod 2015-2020 gyda chyfanswm cyllid ar y cyd o £20 miliwn.

Mae cyllid ychwanegol ar y cyd o £3 miliwn wedi cael ei ddarparu ar gyfer estyniad o ddwy flynedd i'r rhaglen ar gyfer 2020-2022, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i barhau i roi cymorth ar gyfer cerddoriaeth mewn ysgolion.


<u>Y camau nesaf</u>

Nodwyd bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o symud yr agenda hon ymlaen, ac rwy'n falch bod gennym gynrychiolaeth wych o randdeiliaid yn ymgysylltu â ni ar y gwaith hwn.

Roedd y cyfarfod ar 29 Ionawr yn gyfle i randdeiliaid allweddol ym maes gwasanaethau cerddoriaeth roi adborth ar ganfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad ar ddichonoldeb gwasanaethau cerddoriaeth ac ystyried y camau nesaf. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried y sylwadau o'r cyfarfod hwn a byddaf yn gallu rhoi'r diweddaraf i chi ar ôl i'r adborth ddod i law a chael ei werthuso'n llawn.

Atodaf nodyn o gyfarfod y rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 29 Ionawr (Atodiad A). Mae'r aelodaeth wedi'i rhestru yn yr adran bresenoldeb. Fodd bynnag, noder bod y rhain at ddefnydd mewnol yn unig, ar gyfer aelodau'r grŵp ymgynghori, ac ni fwriedir iddynt gael eu dosbarthu i'r cyhoedd ehangach.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon